

Prentisiaeth Uwch mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Lefel 5**

DURATION

24

MONTHS



Bydd Prentisiaeth Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 5 yn eich galluogi i ddatblygu a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ystod eich cyfnod dysgu, byddwch yn adeiladu 'pecyn' o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau er mwyn i chi allu rheoli ac arwain ymarfer yn hyderus o fewn eich sefydliad/lleoliad. Bydd yr hyn y byddwch yn ei ddysgu yn eich cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am roi eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau ar waith, meithrin annibyniaeth, ymreolaeth a'r hyder angenrheidiol ar gyfer swyddi ar y lefel hon.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4. Felly, mae'n rhaid i chi gwblhau'r cymhwyster Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4 cyn dechrau'r cymhwyster Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 5.

Sut rydym yn darparu'r rhaglen hon

Caiff y rhaglen hon ei darparu ar sail un i un gan eich Rheolwr Datblygiad Personol penodedig eich hun.

Byddant yn cwrdd â chi bob mis (wyneb yn wyneb neu'n rhithwir) i ddarparu addysg a hyfforddiant i'ch helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd a'ch tywys trwy'r rhaglen.

Yna byddant yn asesu eich cymhwysedd trwy arsylwi arnoch yn rhoi'r sgiliau newydd ar waith yn y gweithle a'ch helpu i ddatblygu portffolio o dystiolaeth i brofi eich bod wedi cwrdd â gofynion y Brentisiaeth.

Cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn y Brentisiaeth hon

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

- Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 5: Ymarfer
- Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Lefel 2 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu Lefel 2 (os oes angen)

Rhaid i chi gwblhau'r cymhwyster Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4 cyn dechrau'r cymhwyster Arweinyddiaeth a Rheolaeth Ymarfer lechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 5. Fodd bynnag, os ydych chi eisoes wedi cyflawni'r cymhwyster Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4, rydych wedi eich eithrio a gallwch fynd ymlaen i'r Cymhwyster Lefel 5.

Rhan 1 -Er mwyn ennill y cymhwyster Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4, mae'n rhaid i chi gyflawni cyfanswm o 60 credyd o leiaf.

Mae hyn yn cynnwys:

Tair uned orfodol (60 credyd)

Unedau Gorfodol	Rhif	CV*
Deddfwriaeth, damcaniaethau, a modelau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn / plentyn	410	22
Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	411	20
Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	412	18

Bydd y cymhwyster Lefel 4 yn cael ei asesu drwy gyfres o dasgau a asesir yn fewnol ac yn allanol. **Bydd hyn yn cynnwys:**

Prosiect sy'n cynnwys adroddiad ysgrifenedig, cyflwyniad a thrafodaeth yn seiliedig ar newid arfaethedig i ymarfer, ynghyd â chyfres o dasgau yn cynnwys ymatebion llafar ac ysgrifenedig.

- Bydd Tasgau A-C yn cael eu hasesu'n fewnol. Bydd gradd llwyddiant yn cael ei ddyfarnu ar gyfer yr uned ar ôl cwblhau pob tasg yn llwyddiannus
- Bydd Tasg D yn cael ei asesu gan asesydd allanol. Bydd gradd llwyddiant yn cael ei ddyfarnu ar gyfer yr uned ar ôl cwblhau pob tasg yn llwyddiannus
- Bydd Tasgau E - G yn cael eu hasesu'n fewnol. Bydd gradd llwyddiant yn cael ei ddyfarnu ar gyfer yr uned ar ôl cwblhau pob tasg yn llwyddiannus

Rhan 2 -Er mwyn ennill y cymhwyster Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 5: Ymarfer, mae'n rhaid i chi gyflawni cyfanswm o 120 credyd o leiaf.

- Mae'n rhaid cwblhau 20 credyd o Grŵp Gorfodol A
- Mae'n rhaid cwblhau 70 credyd o Grŵp Gorfodol B
- Mae'n rhaid cwblhau isafswm o 30 credyd o'r Grŵp Dewisol

Grŵp Gorfodol A

Uned	Rhif	CV*
Arwain a rheoli ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn / plentyn	520	20

Grŵp Gorfodol B

Uned	Rhif	CV*
Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol	522	18
Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth i fodloni gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol	523	16
Ymarfer proffesiynol		
Arwain a rheoli arfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion	524	12
	525	12
Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a sicrwydd yn y lleoliad gwaith	526	12

Grŵp Dewisol

Uned	Rhif	CV*
Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal	527	31
Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl	528	30
Arwain a rheoli cefnogaeth ar gyfer lleihau arferion cyfyngol trwy ddulliau cadarnhaol ar gyfer cefnogi ymddygiad	529	21
Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain	530	19
Arwain a rheoli gwasanaethau ar gyfer unigolion sy'n byw mewn lleoliadau cartrefi gofal	531	30
Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia	532	31
Arwain a rheoli gwasanaethau ar gyfer unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl	533	31
Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth	534	34
Arwain gwaith gydag unigolion sydd wedi colli synhwyrau	535	20
Arwain a rheoli gwaith ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau	536	19
Arwain gwaith ym maes gofal diwedd oes	537	11
Arwain a rheoli ardal glinigol	538	30
Arwain a rheoli gwasanaethau lleoliadau oedolion/trefniadau cyd-fyw	539	18
Arwain a rheoli gwasanaethau eirioli annibynnol	540	24
Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr	541	11
Arwain cefnogaeth ar gyfer gofalwyr	542	8
Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol	543	10
Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr	544	9
Arwain a rheoli cynllunio a phrosesu busnes	545	12
Arwain a rheoli tîm therapi	546	20
Defnyddio asesiadau ar gyfer datblygu cynlluniau personol	401	6

*Gwerth credyd

Y prif ddulliau asesu o fewn y cymhwyster hwn fydd drwy bortffolio o dystiolaeth, prosiect busnes, arsylwi ymarfer a thrafodaeth broffesiynol. Mae'r gweithgareddau asesu wedi'u cynllunio fel bod cyfle i gasglu tystiolaeth gyfannol. Mae hyn yn golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gwaith go iawn sy'n dangos y gallwch chi weithio'n hyderus ac yn gyson ar draws pob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur, gan eich galluogi i ddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws gwahanol unedau a chanlyniadau dysgu o fewn yr un gweithgaredd, ynghyd ag osgoi ailadrodd unrhyw asesiad.


Bydd y tasgau'n ei gwneud yn ofynnol i chi integreiddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol; mae'r asesiad, felly, yn canolbwyntio ar ansawdd a chysondeb eich ymarfer.



Gofal, dyna beth rydyn ni'n ei wneud

I gael copi o amlinelliad y cwrs hwn yn Gymraeg, cysylltwch â ni
marketing@t2group.co.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni yn:  029 2079 9133

 www.t2group.co.uk

 info@t2group.co.uk



UNDES EWROPEAID
EUROPEAN UNION



Uywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund